

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth Mawrth 2020

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Y Sail statudol ar gyfer codi ffioedd	3
Polisi	4
Datganiad polisi	4
Amcanion y polisi	4
Goblygiadau ar gyfer cyfle cyfartal	4
Gwasanaethau y codir ffioedd amdanynt	5
Ffioedd Unffurf	6
Gwasanaethau na chodir ffioedd amdanynt	6
Sut y caiff ffioedd eu cyfrifo	7
Beth sydd wedi'i gynnwys?	7
Gwrthodiad i ddatgan amgylchiadau ariannol	7
Amddifadedd	8
Cyfalaf	8
Eiddo	8
Cyfalaf ac eiddo a rennir	9
Dyfarniadau iawndal am gostau gofal yn y dyfodol	9
Incwm	9
Isafswm Incwm	10
Treuliau a Ddiystyrir	10
Ar gyfer gwasanaethau amhreswyl	10
Ar gyfer gwasanaethau preswyl	11
Cyplau	11
Ar gyfer gwasanaethau amhreswyl	11
Ar gyfer gwasanaethau preswyl	11
Ffioedd	11
Llog	13
Dyled	13
Costau Ychwanegol, Symiau Atodol Parti Cyntaf a Thrydydd Parti	13
Ailasesu a dulliau apelio	14
Asesiad / Ailasesiad Ariannol	14
Cais am adolygiad	14
Hepgoriad	15
Apêl	15
Cwynion	16
Cyngor ynghylch budd-daliadau	16
Diogelu data	16
Atodiad: dogfennaeth a chanllawiau perthnasol	17

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth Cyflwyniad

Yn wahanol i Ofal Iechyd y GIG, nid yw gwasanaethau gofal a chymorth Awdurdodau Lleol yn rhad ac am ddim ar y cyfan. Mae pobl wastad wedi gorfod talu rhywbeth tuag at gost eu gofal, os ydynt yn gallu fforddio gwneud hynny. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu drostynt eu hunain a ydynt yn mynd i godi ffioedd ar bobl am wasanaethau gofal a chymorth a drefnir ac a ariennir ganddynt ac, yn gyffredin â'r mwyafrif llethol o gynghorau, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi penderfynu codi ffioedd am ofal. Mae incwm a geir o ffioedd gofal yn helpu'r cyngor i gyflawni ei ymrwymadau ariannu statudol a phennu cyllideb fantoledig ond, yn hanfodol, mae hefyd yn helpu i warchod, datblygu ac ymestyn gwasanaethau gofal a chymorth a sicrhau bod gwasanaethau o safon uchel ar gael ar y ffurf gywir i ddiwallu anghenion oedolion agored i niwed yn ardal yr awdurdod lleol.

Y Sail statudol ar gyfer codi ffioedd

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") sy'n darparu'r fframwaith statudol ar gyfer codi

ffioedd am wasanaethau gofal a chymorth. Mae Adran 59 o'r Ddeddf yn galluogi'r Awdurdod Lleol i godi ffioedd ar unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth. Mae Adrannau 50 a 63 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i gynnal asesiad o adnoddau ariannol unigolyn er mwyn pennu'r swm y bydd yn ofynnol iddo'i dalu tuag at gostau'r gwasanaethau gofal a chymorth y bydd yn eu cael.

Mae [Rheoliadau Gofal a Chymorth \(Asesiad Ariannol\) \(Cymru\)](#) a [Rheoliadau Gofal a Chymorth \(Gosod Ffioedd\) \(Cymru\) 2015](#) a [Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru, Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 \(Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol\)](#) a gyhoeddwyd dan Adran 145 o'r Ddeddf yn nodi'r manylion o ran codi ffioedd am wasanaethau gofal a chymorth.

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Polisi

Datganiad polisi

Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych yn codi am eu gwasanaethau yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf.

Amcanion y polisi

Mae'r Polisi Codi Ffioedd wedi'i fwriadu i:

1. Fod yn deg i'r holl unigolion
2. Bod yn seiliedig ar allu unigolyn i dalu
3. Sicrhau bod mathau o gamau gwneud iawn ar gael a bod unigolion yn cael eu gwneud yn ymwybodol ohonynt.

Goblygiadau ar gyfer cyfle cyfartal

Mae'r polisi'n ceisio sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn deg. Mae'n berthnasol i'r holl bobl 18 oed neu drosodd sy'n cael gwasanaethau gofal a/neu gymorth a drefnir neu a ariennir gan y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys y grwpiau cleientiaid canlynol:

- Pobl Hŷn
- Pobl â phroblem iechyd meddwl (ac eithrio gwasanaethau a ddarperir dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl)
- Pobl ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrâu
- Pobl â salwch cronig
- Pobl ag anabledd dysgu

Ni chodier ffioedd ar y grwpiau cleientiaid canlynol ar hyn o bryd: Unrhyw unigolyn a oedd yn cael taliadau o'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn flaenorol ac sydd bellach yn cael Grant Byw'n Annibynnol Cymru gan ei fod eisoes yn cyfrannu at gost ei wasanaeth.

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Yn unol â'r ddeddfwriaeth nid oes ffioedd yn cael eu cyflwyno ar gyfer:

1. Unrhyw unigolyn sy'n cael gwasanaethau/cymorth ôl-ofal a ddarperir dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Dim ond i wasanaethau a ddarperir yn benodol dan Adran 117 y mae hyn yn berthnasol ac efallai na fydd yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir er mwyn mynd i'r afael ag anghenion corfforol)
2. Unigolyn sy'n dioddef unrhyw fath o Glefyd Creutzfeldt Jakob (CJD)
3. Unrhyw blentyn sy'n cael gwasanaethau neu'n gweithredu fel gofalwr
4. Rhiant neu warcheidwad am wasanaethau sy'n cefnogi plentyn.

Mae dyletswydd arnom i ddarparu cludiant ar gyfer dinasyddion dan rai amgylchiadau yn unol â Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011 yn nodi na ddylai Awdurdod Lleol godi tâl am gludiant i wasanaeth dydd lle mae angen am gludiant wedi ei nodi yn y cynllun gofal a chymorth

Gwasanaethau y codir ffioedd amdanynt

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn codi ffioedd am y gwasanaethau canlynol, pa un a ydynt yn cael eu darparu'n fewnol ynteu gan y sector preifat:

- Gofal preswyl
- Gofal a chymorth cartref
- Gwasanaethau dydd
- Cyfleoedd Gwaith
- Cymorth yn y nos
- Taliadau Uniongyrchol/Cymorth dan Gyfarwyddyd y Dinesydd/Cyllidebau Cymorth
- Rhannu Bywydau
- Gwasanaeth Byw â Chymorth

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

- Teleofal
- Gwasanaeth Byw'n Annibynnol â Chymorth (BACH)
- Cost weinyddol trefnu gwasanaethau ar ran y rhai sy'n hunanariannu eu gofal a'u cymorth
- Costau sefydlu a gweinyddu'r Cynllun Taliadau Gohiriedig

Ffioedd Unffurf

- Prydau bwyd a gafwyd yn ystod presenoldeb mewn canolfan ddydd neu mewn lleoliadau Tai Gofal Ychwanegol
- Teleofal (Llinell Ofal)

Gwasanaethau na chodir ffioedd amdanynt

Ni chodir ffioedd am y gwasanaethau canlynol ar hyn o bryd:

- Gwasanaethau Gofalwyr
- Gwasanaethau Ailalluogi â Therfyn Amser

Mae deddfwriaeth yn atal ffioedd rhag cael eu cyflwyno ar gyfer:

- Gofal a chymorth a ddarperir fel rhai ailalluogi ar gyfer unigolyn (am hyd at 6 wythnos fel arfer) i'w alluogi i gynnal neu adennill ei allu i fyw'n annibynnol gartref, darparu cludiant i fynychu gwasanaeth dydd lle mae'r cludiant yn cael ei ddarparu gan, neu'n cael ei drefnu gan, awdurdod lleol a lle mae presenoldeb yn y gwasanaeth dydd a'r cludiant iddo wedi'u cynnwys yn y cynllun gofal a chymorth a reolir ar gyfer yr unigolyn;
- Mae'n rhaid peidio â chodi ffioedd am ddarparu asesiad o anghenion, prosesau cynllunio gofal, cynlluniau gofal a darparu datganiadau o ffioedd, gan nad yw'r prosesau hyn yn gyfystyr â darparu gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyngor

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

- Am gynnal adolygiad o benderfyniad i godi ffi lle mae hynny'n ofynnol.
- Gofal a chymorth i blentyn a chymorth i blentyn sy'n ofalwr, ac am daliadau uniongyrchol i sicrhau cymorth o'r fath.
- Cludiant i wasanaeth dydd lle darperir y cludiant fel rhan o ddiwallu anghenion unigolyn.
- Eiriolaeth broffesiynol annibynnol lle mae awdurdod lleol wedi trefnu bod hyn yn cael ei ddarparu yn unol â'r cod ymarfer ar eiriolaeth dan Ran 10 (Cwynion, Cynrychiolwyr a Gwasanaethau Eirioli) o'r Ddeddf lle nad yw unigolyn yn gallu goresgyn y rhwystr(au) i gyfranogi'n llawn yn y prosesau asesu, cynllunion gofal a chymorth, adolygu a diogelu heb.

Sut y caiff ffioedd eu cyfrifo

Beth sydd wedi'i gynnwys?

Ym mhob achos, dim ond materion ariannol yr unigolyn ei hun fydd yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Bydd incwm a chyfalaf priod, rhiant neu bartner yn cael eu diystyru. Fodd bynnag, yn unol â deddfwriaeth:

Lle mae'r unigolyn yn cael incwm fel un rhan o gwpl neu'n meddu ar gyfalaf fel un rhan o gwpl, y rhagdybiaeth gychwynnol yw bod gan y naill unigolyn a'r llall gyfran gyfartal o'r incwm neu'r cyfalaf hwnnw. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod Lleol asesu incwm a chyfalaf cwpl ond dim ond lle mae hyn yn fwy manteisiol yn ariannol i'r unigolyn sy'n cael ei asesu.

Gweler hefyd paragraff ar tudalen 9 sy'n cyfeirio at gyplau.

Gwrthodiad i ddatgan amgylchiadau ariannol

Os nad yw unigolyn neu ofalwr yn dymuno cael asesiad ariannol neu os yw'n gwrthod cydweithredu ag asesiad ariannol, tybir bod y moddion ganddo i dalu cost lawn ei ofal yn achos gofal preswyl neu hyd at y swm wythnosol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth eraill.

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Amddifadedd

Os oes gan yr awdurdod ryw reswm dros gredu y gallai'r unigolyn fod wedi ceisio osgoi talu am ofal a chymorth yn fwriadol trwy beidio â datgelu neu drwy amddifadu ei hun o asedau, boed yn asedau cyfalaf neu incwm, byddai'r awdurdod yn ceisio adennill y costau hynny. Mae'r Cod Ymarfer pennu rheolau mewn perthynas ag amddifadedd bwriadol yn Atodiad F.

Lle mae unigolyn yn trosglwyddo cyfalaf neu ased cyfalaf i drydydd parti, neu'n gwaredu ased cyfalaf mewn ffordd arall er mwyn osgoi talu ffioedd neu dalu llai o ffioedd, bydd yn cael ei asesu fel pe bai'n dal i feddu ar y cyfalaf hwnnw. Lle mae unigolyn wedi trosglwyddo'r ased i drydydd parti er mwyn osgoi'r ffi, gall y trydydd parti fod yn atebol am dalu'r gwahaniaeth i'r Awdurdod Lleol rhwng yr hyn y byddai wedi'i godi a'r hyn y mae'n ei godi mewn gwirionedd ar yr unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth.

Cyfalaf

Os oes gan unigolyn fwy na'r terfyn cyfalaf a bennwyd at ddibenion Gofal Preswyl a Nyrsio gan Lywodraeth Cymru, bydd disgwyl iddo dalu cost lawn y gwasanaethau y mae'n eu cael mewn cartref gofal, neu hyd at uchafswm ffi wythnosol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl. Bydd hyn yn berthnasol nes bod ei gyfalaf yn gostwng islaw'r trothwy. Caiff y trothwy cyfalaf hwn ei adolygu bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 yn nodi rheolau mewn perthynas â chyfalaf a geir yn Atodiad A. Mae cyfalaf daliadau hefyd yn cynnwys arian a ddelir gartref.

Eiddo

Ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl, wrth gyfrifo gwerth y cyfalaf sydd gan unigolyn, mae'n rhaid i werth yr eiddo y mae'n byw ynddo fel ei brif gartref neu ei unig gartref gael ei ddiystyru. Bydd gwerth unrhyw eiddo arall neu dir y mae'r unigolyn yn berchen neu'n rhannol berchen arno'n cael ei ystyried fel cyfalaf ac yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol o'r dechrau un. Os yw gwerth eiddo ychwanegol o'r fath yn uwch na'r terfyn cyfalaf, bydd disgwyl i'r unigolyn dalu cost lawn ei wasanaethau hyd at yr uchafswm ffi wythnosol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Ar gyfer gwasanaethau preswyl, caiff gwerth yr eiddo y mae unigolyn yn byw ynddo ei ddiystyru yn ystod unrhyw arhosiad dros dro. Caiff ei werth ei ddiystyru hefyd am gyfnod o 12 wythnos o'r dyddiad y maent yn dod yn breswlydd parhaol mewn cartref gofal. Fodd bynnag, os yw gwerth eiddo arall, tir a chyfalaf yn uwch na'r terfyn cyfalaf, bydd disgwyl i'r unigolyn dalu cost lawn ei wasanaethau preswyl o'r dechrau.

Caiff gwerth cartref blaenorol yr unigolyn ei ddiystyru hefyd os yw amodau penodol eraill yn berthnasol fel a nodir yn Atodiad A, Cymal 3.

Bydd prisiad manwl ar gyfer yr eiddo'n cael ei geisio pryd bynnag y bydd anghydfod ynghylch y gwerth.

Bydd Taliad Gohiriedig yn cael ei gynnig i'r bobl hynny sy'n mynd i mewn i gartref gofal neu sydd mewn cartref gofal, a chanddynt ran mewn eiddo, sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra ac nad ydynt fel arall yn meddu ar gyfalaf nac incwm digonol i dalu cost lawn eu gofal preswyl. I gael mwy o wybodaeth gweler y daflen Trefniadau Taliadau Gohiriedig ac Atodiad D o'r Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol).

Cyfalaf ac eiddo a rennir

Lle mae'r unigolyn yn berchen ar gyfalaf ar y cyd â rhywun arall, tybir fel arfer mai bod cyfran yr unigolyn yn cyfateb i hanner oni bai fod tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Lle mae'r cyfalaf yn gysylltiedig ag eiddo a thir, bydd cyfran lesiannol yr unigolyn o'r eiddo neu dir yn cael ei phennu. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cael prisiad ar gyfer cyfran lesiannol yr unigolyn o'r eiddo.

Dyfarniadau iawndal am gostau gofal yn y dyfodol

Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar sail unigol, gan ddibynnu ar y trefniadau penodol o fewn y dyfarniad.

Incwm

Caiff incwm ei gyfrifo fel a nodir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 ac Atodiad B o'r Cod Ymarfer ac mae'n cynnwys budd-daliadau a rhent y mae'r unigolyn yn eu cael.

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Ni fydd incwm a geir ar gyfer aelodau eraill o'r aelwyd yn cael ei gynnwys – er enghraifft Budd-dal Plant neu Gymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn a geir ar ran partner. Gweler hefyd y paragraff ar tudalen 9 ar gyplau.

Caiff enillion eu diystyru hefyd er mwyn annog y rhai sy'n gallu gweithio i wneud hynny.

Caiff incwm ei gyfrifo namyn unrhyw daliadau treth ac yswiriant gwladol.

Isafswm Incwm

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gadael yr unigolyn ag isafswm incwm ar ôl codi ffi.

Ar gyfer gofal a chymorth preswyl, mae'r isafswm incwm yn ffigwr a gaiff ei bennu gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol (gweler Atodiad B a Rheoliad 13 (Rhan 2, Codi Ffioedd dan Ran 5 o'r Ddeddf) o'r Rheoliadau).

Ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl mae hwn yn cyfateb i "hawl sylfaenol" yr unigolyn i fudd-dal lles perthnasol, a "byffer" o 35% o'r swm hwnnw o leiaf. Mae hyn yn ychwanegol at gadw cyfraniad tuag at unrhyw wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd sydd gan yr unigolyn, sef o leiaf 10% o'r swm sylfaenol. Nid yw'r 'hawl sylfaenol' yn cynnwys y Premiwm Anabledd Difrifol. (Gweler Atodiad B a Rheoliad 12 (Rhan 2, Codi Ffioedd dan Ran 5 o'r Ddeddf) o'r Rheoliadau).

Treuliau a Ddiystyrir

Ar gyfer gwasanaethau amhreswyl

Caiff rhai treuliau penodol eu diystyru:

1. Cost gofal preifat, pe bai'r gofal hwnnw'n cael ei ddarparu fel arall gan yr Awdurdod a'i fod, felly, wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gofal a Chymorth
2. Costau gosod, rhentu neu fenthyca unrhyw eitem angenrheidiol o offer neu addasiad a nodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth
3. Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn hefyd i ddiystyru gwariant arall sy'n gysylltiedig ag anabledd neu anghenion meddygol a nodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Ar gyfer gwasanaethau preswyl

Mae gan yr all ddisgresiwn i ddiystyru treuliau a ysgwyddir gan breswylwyr ar gyfer eitemau sy'n ymwneud ag anabledd, nad ydynt yn cael eu darparu gan y cartref gofal neu gan y Bwrdd Iechyd.

Cyplau

Ar gyfer gwasanaethau amhreswyl

Os yw'r ddau aelod o gwpl yn cael gwasanaeth, byddant yn cael eu hasesu fel unigolion. Dim ond os yw'n fanteisiol iddynt yn ariannol y byddant yn cael eu hasesu fel cwpl gan ddefnyddio'r symiau a phremiymau perthnasol priodol.

Os yw un aelod o gwpl yn cael gwasanaeth bydd yr Awdurdod yn ei asesu fel unigolyn fel arfer ond gall ofyn am wybodaeth ariannol ar gyfer y ddau bartner, er nad yw'r partner dan unrhyw orfodaeth i ddarparu'r wybodaeth hon. Y rheswm dros hyn yw y gallai fod yn fanteisiol yn ariannol i'r unigolyn gael ei drin fel hanner cwpl. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae'r rhan fwyaf o'r incwm neu'r cyfalaf yn enw'r unigolyn.

Gall unigolyn ddal i ddewis cael ei asesu fel unigolyn. Lle gwneir hyn, bydd uchafswm o 50% o daliadau allan yn cael eu hystyried yn yr asesiad.

Ar gyfer gwasanaethau preswyl

Lle nad yw'r unigolyn yn byw gyda'i briod neu bartner sifil a bod 50% o unrhyw bensiwn personol neu alwedigaethol yn cael ei dalu i'r partner hwnnw neu mewn perthynas â'r partner hwnnw, caiff y swm hwn ei ddiystyru. Nid yw hyn yn ymestyn yn awtomatig i gyplau dibriod ond mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ystyried hyn mewn achosion unigol.

Ffioedd

Dechreuir codi'r ffioedd o'r diwrnod cyntaf y darperir gofal a chymorth. Ni fydd yn ofynnol talu'r ffi nes bod yr Awdurdod wedi anfon hysbysiad sy'n manylu ar y cyfaniad y mae'n rhaid ei wneud.

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Mae'r asesiad ariannol yn cyfrifo'r swm mwyaf y bydd gofyn i unigolyn ei dalu. Ar gyfer Gwasanaethau Preswyl Seibiant, am ddim mwy nag 8 wythnos, bydd y ffi yn ddarostyngedig hefyd i uchafswm ffi wythnosol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru fel a nodir yn Rheoliad 7 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) Cymru 2015.

Yn achos gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl bydd y ffi yn ddarostyngedig hefyd i uchafswm ffi wythnosol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru fel a nodir yn Rheoliad 7 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) Cymru 2015. Dim ond am y gwasanaethau y mae'n eu cael a allai gostio llai na'i ffi wythnosol asesedig y bydd yr unigolyn yn talu. Codir am y gwasanaethau hyn trwy gyflwyno anfoneb fisol yn y mis ar ôl i'r gofal a'r cymorth gael eu darparu.

Mae ffioedd yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a chaiff y ffioedd sy'n berthnasol yn y flwyddyn ariannol gyfredol eu dangos yn y 2020 Taflen ffioedd a thaliadau.

Gall ffioedd unffurf megis Teleofal a gwasanaethau eraill sy'n Gysylltiedig â Thai gael eu codi'n uniongyrchol gan y darparwr gwasanaeth. Bydd y ffioedd hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn yr asesiad ariannol ar gyfer gwasanaethau eraill ond nid ydynt yn ddarostyngedig i'r uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gofal a chymorth a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cyllidebau Cymorth, Taliadau Uniongyrchol a gwasanaethau eraill sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'n ffordd fwy hyblyg o ddarparu gwasanaethau amhreswyl y gellir eu hamrywio i weddu i'r unigolyn.

Bydd ffioedd a godir am y gwasanaethau hyn yn gyfraniad tuag at y gost lawn gydag uchafswm cyfraniad wythnosol fel a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfraniad yr unigolyn wastad yn cael ei gyfrif tuag at gost ei Gyllideb Cymorth neu Daliadau Uniongyrchol cyn unrhyw gymorth ariannol a ddarperir gan y Cyngor. I bob pwrpas bydd y Cyngor yn talu swm atodol yn ychwanegol at gyfraniad yr unigolyn hyd at werth y Gyllideb Cymorth neu'r Taliadau Uniongyrchol.

Ni fydd y cyfraniad wythnosol a gaiff ei dalu gan yr unigolyn yn amrywio yn ystod y flwyddyn.

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Llog

Sir Ddinbych yn codi llog ar yr holl Drefniadau Taliadau Gohiriedig yn ôl y gyfradd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gyfradd hon 0.15% uwchlaw'r 'gyfradd berthnasol'. Y gyfradd berthnasol yw cyfradd giliau'r farchnad a nodir yn yr adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd y gyfradd berthnasol yn newid bob che mis ar 1 Ionawr ac 1 Gorffennaf, fel y dangosir yn y daflen Ffioedd a Thaliadau 2020. Bydd llog hefyd yn cael ei godi ar 2% uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr am ddyledion lle mae arwystl wedi cael ei osod ar fuddiant mewn tir (adran 71 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dim ond unwaith y mae'r person wedi marw y bydd y ddyled yn atebol am log.

Dyled

Bydd anfonebau sydd heb eu talu'n cael eu hystyried yn ddyled a bydd Adran Mân Ddyledwyr y Cyngor yn mynd ar ôl y dyledion hyn. Gall hyn arwain at gamau adennill dyledion trwy'r llysoedd os na wneir y taliad.

Bydd Taliad Gohiriedig yn cael ei gynnig lle y bo'n briodol. Mewn achosion lle mae Taliad Gohiriedig wedi cael ei wrthod neu lle nad yw'r unigolyn yn gymwys, mae gan yr Awdurdod Lleol bŵer dan Adran 71 o'r Ddeddf i greu arwystl dros ran yr unigolyn mewn tir i sicrhau'r taliad sy'n ddyledus am wasanaethau gofal a chymorth lle nad oes taliad wedi cael ei wneud.

Costau Ychwanegol, Symiau Atodol Parti Cyntaf a Thrydydd Parti

Mae rhai cartrefi gofal yn codi ffioedd uwch na'r ffioedd safonol a delir gan yr Awdurdod. Os gall y gwasanaethau gofal a chymorth sy'n ofynnol gael eu darparu gan gartrefi gofal sy'n derbyn y ffioedd safonol, yna dim ond y ffioedd hyn y bydd yr Awdurdod yn eu talu. Gall yr unigolyn ddewis cartref gofal sy'n codi mwy na'r ffi y byddai'r Awdurdod Lleol yn disgwyl ei thalu fel arfer am ddarparu'r llety o'r math hwnnw ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

Lle mae'r unigolyn wedi dewis cartref gofal sy'n ddrutach bydd angen cytuno sut y bydd y gwahaniaeth yn y gost yn cael ei dalu.

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Y gwahaniaeth rhwng swm ffioedd safonol yr Awdurdod Lleol a chostau gwirioneddol dewis gartref gofal yr unigolyn yw'r gost ychwanegol hon. Bydd yn rhaid i'r unigolyn enwi trydydd parti sy'n gallu talu cost ychwanegol y dewis lety trwy gydol ei arhosiad. Mewn rhai achosion gellir caniatáu i'r unigolyn dalu'r gost ychwanegol ei hun. Bydd yr Awdurdod yn asesu gallu'r trydydd parti hwnnw i dalu'r gost ychwanegol trwy gydol y trefniant.

Ailasesu a dulliau apelio

Asesiad / Ailasesiad Ariannol

Bydd achosion lle bydd angen adolygiad/ailasesiad ariannol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

1. Lle mae incwm neu gyfalaf unigolyn wedi newid,
2. Lle bu newid yn ei amgylchiadau neu
3. Lle bu newid i'w gynllun Gofal a Chymorth.

Mae'n bosibl na fydd unrhyw newid yn y swm wythnosol yr aseswyd bod yn rhaid i gwsmer ei gyfrannu ar ôl yr adolygiad/ailasesiad ariannol.

Dylai'r unigolyn neu ei gynrychiolydd gysylltu â'r Swyddog Asesu Ariannol a fydd yn diwygio'r asesiad ariannol fel y bo angen. Bydd yr unigolyn yn cael ei hysbysu ynghylch y penderfyniad yn ysgrifenedig.

Cais am adolygiad

Os nad yw unigolyn yn cytuno â'r asesiad ariannol, y costau a gymhwyswyd neu'r cyfraniad y gofynnwyd amdano, mae dulliau o apelio. Gall y cais am adolygiad gael ei wneud unrhyw bryd wedi i'r Awdurdod Lleol wneud ei benderfyniad ac i'r penderfyniad hwn gael ei gyfleu i'r unigolyn. Mae'n rhaid i'r unigolyn ddatgan y rheswm dros adolygiad a gellir gwneud hyn naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Nid yw'r cais am adolygiad yn gyfyngedig i'r unigolyn; gall cynrychiolydd weithredu ar ran yr unigolyn i wneud cais am adolygiad.

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

Lle mae unigolyn wedi trosglwyddo asedau er mwyn lleihau ei ffi neu gyfraniad, gall y 'trosglwyddai atebol', h.y. yr unigolyn y mae'r ased wedi cael ei drosglwyddo iddo, wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad i godi ffi arno yn yr un ffordd â'r unigolyn uchod.

Dylai'r unigolyn neu ei gynrychiolydd gysylltu â'r Swyddog Asesu Ariannol a fydd:

1. Yn gwirio bod yr wybodaeth ariannol a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad yn gywir
2. Yn edrych ar unrhyw wybodaeth newydd a ddarparwyd gan yr unigolyn
3. Yn gwirio bod y cyfraniad asesedig wedi cael ei gyfrifo'n gywir
4. Yn penderfynu a oedd y penderfyniad yn deg ac yn gywir.

Bydd yr unigolyn yn cael ei hysbysu ynghylch y penderfyniad yn ysgrifenedig.

Hepgoriad

Os yw unigolyn yn teimlo nad yw'n gallu talu'r ffi neu'r cyfraniad gall ofyn am hepgor y ffi neu'r cyfraniad. Caiff ceisiadau i hepgor ffioedd eu hystyried gan banel o staff Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, gan gynnwys rheolwyr gwasanaethau. Gall y Panel argymhell bod ffioedd neu gyfraniadau'n cael eu hepgor mewn achosion o amgylchiadau eithriadol neu galedi ariannol.

Mae'n rhaid i unigolyn hysbysu'r Awdurdod os yw'n dewis atal taliadau mewn perthynas â'i ffi neu gyfraniad yn ystod cyfnod yr adolygiad; fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn adennill unrhyw swm heb ei dalu sydd wedi cronni unwaith y bydd canlyniad yr adolygiad wedi cael ei gadarnhau.

Apêl

Lle mae unigolyn yn parhau i fod yn anhapus gyda chanlyniad yr adolygiad neu'r hepgoriad bydd yn gallu apelio at Bennaeth y Gwasanaeth. Gall unigolyn wneud apêl os yw o'r farn nad yw'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad ystyriol iawn wrth benderfynu ar ei adolygiad, er enghraifft:

- Peidio â dilyn y polisi codi tâl am wasanaethau gofal a chymorth (y polisi hwn)

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

- Peidio ag ystyried gwybodaeth berthnasol yn briodol.

Rhoddir gwybod i'r unigolyn am ganlyniad y llythyr yn ysgrifenedig.

Cwynion

Lle mae unigolyn yn dal yn anfodlon ar ganlyniad yr adolygiad neu'r cais am hepgoriad bydd yn gallu cyflwyno cwyn ffurfiol i'r Cyngor a fydd yn ei hystyried trwy ei weithdrefn gwynion ffurfiol. Gall unigolyn gyfleu cwyn lle mae'n ystyried nad yw'r Cyngor wedi ystyried penderfyniad yn briodol wrth gynnal ei adolygiad, er enghraifft;

- Peidio â dilyn y Polisi Codi Ffioedd ar gyfer Gwasanaethau Gofal a Chymorth (y polisi hwn)
- Peidio â dilyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Peidio â rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth berthnasol.
- Bydd yr unigolyn yn cael ei hysbysu ynghylch canlyniad y gŵyn yn ysgrifenedig.

Cyngor ynghylch budd-daliadau

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn darparu cyngor a chymorth i sicrhau bod pobl yn cael y Budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Darperir y gwasanaeth hwn gan Cyngor Ar Bopeth a chaiff atgyfeiriadau eu gwneud gan yr Un Pwynt Mynediad. Mae'r holl bobl sy'n cael gwasanaeth y codir ffi amdano'n cael cynnig cynhorthwy i gynyddu i'r eithaf y budd-daliadau y maent yn eu hawlio fel rhan annatod o'u Hasesiad Ariannol.

Diogelu data

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir fel rhan o weithredu'r polisi hwn yn rhwym wrth Ddeddf Diogelu Data 2018. Gall data personol ansensitif gael ei rannu ar draws adrannau'r Cyngor at ddibenion cyfreithlon megis:

- Diweddarau cofnodion y Cyngor

Polisi codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth

- Darparu gwasanaethau
- Atal a chanfod twyll

Gweler ein gwefan am wybodaeth am [hysbysiad preifatrwydd](#) Cyngor Sir Ddinbych.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys manylion am ddyletswydd y Cyngor i warchod yr arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, a'r gofyniad i gymryd rhan mewn ymarfer paru data a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Atodiad: dogfennaeth a chanllawiau perthnasol

1. Taflen ffioedd a thaliadau ar gyfer y flwyddyn gyfredol
2. Canllawiau ar dalu am ofal gan [wefan DEWIS](#)
3. I gael gwybodaeth am [y Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)